

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Cardiff Family Advice and Support



*Yn rhoi i Rieni, Plant,
Pobl Ifanc a Theuluoedd...*

*Y wybodaeth gywir
Y cyngor cywir
Y cymorth cywir*

...ar yr adeg gywir



Ffôn: 03000 133 133

E-bost: CyswlltFAS@caerdydd.gov.uk

www.teuluoeddcaerdydd.co.uk

Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn cynnig ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghaerdydd. Gall y tîm roi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r y canlynol:

- Bywyd teuluol
- Ymddygiad plant
- Ofal Plant
- Cymorth rhianta
- Presenoldeb Ysgol
- Cyflogaeth, arian a thai
- Gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau eraill

Porth i Deuluoedd Caerdydd

Mae'r Porth i Deuluoedd yn fan cyswllt i unrhyw weithiwr proffesiynol, rhiant, plentyn neu berson ifanc i gael y wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ei angen yng Nghaerdydd.

Mae Swyddogion Cyswllt y Porth i Deuluoedd ar gael i wrando ar eich sefyllfa, adnabod pa gefnogaeth sydd orau i chi a helpu chi i gael mynediad ati.

Gall y tîm Porth i Deuluoedd helpu chi i ddod o hyd i wasanaethau cefnogaeth gan gynnwys cyngor ariannol, tai, budd-daliadau lles, ymddygiad plant, gofal plant, presenoldeb yn yr ysgol, iechyd a lles, cymorth rhieni a llawer mwy.

Mae'r Porth i Deuluoedd yn gweithio ochr yn ochr ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at Helpu Teuluoedd a Chymorth i Deuluoedd pan a lle bo ar deuluoedd angen cefnogaeth bellach.

Tîm Helpu Teuluoedd Caerdydd

Mae Tîm Helpu Teuluoedd Caerdydd yn wasanaeth ymyrraeth gynnar sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth o safon i blant a phobl ifanc rhwng 0-18 oed (neu hyd at 25 oed yn achos person ifanc agored i niwed) a'u teuluoedd sy'n byw yng Nghaerdydd.

Yn gweithio ochr yn ochr ag ystod eang o asiantau cymunedol a phartneriaeth lleol, mae'r tîm yn gallu teilwra cefnogaeth i'r anghenion niferus sydd gan deuluoedd bob dydd, gan gynnig help byrdymor (fel arfer 6-12 wythnos).

Nod y tîm yn cwrdd â theuluoedd mewn lle y mae'n nhw'n gyfforddus yno, efallai yn y cartref, yr Hyb Lleol neu ysgol os yw hyn yn well.

Cefnogi Teuluoedd

Gall y Gwasanaeth Cefnogaeth i Deuluoedd weithio gyda theuluoedd sy'n wynebu materion mwy cymhleth.

Gall gweithwyr cefnogaeth i deuluoedd weithio gyda rhieni, plant a phobl ifanc i gael yr atebion cywir ar eu cyfer a'u teuluoedd. Gall Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd gynorthwyo mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Darpariaeth uniongyrchol o wahanol raglenni wedi eu seilio ar dystiolaeth i deuluoedd
- Rhoi cymorth a chefnogaeth ymarferol
- Bod yn weithiwr allweddol ar gyfer teulu
- Cynghori ar ystod o wasanaethau yn y gymuned